O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 381 (Cy. 116)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy i Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *29 Chwefror 2016* |
| *Yn dod i rym* | *6 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) ("y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Mawrth 2016 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 24 (Cyfnewidfa'r Faenol), Conwy i Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2016.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 6 Mawrth

2016 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd ym Mwrdeistref Sirol Conwy ac yn Sir Ddinbych a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen.

**Cymhwyso**

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Chwefror 2016

*Richard Morgan*
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa’r Faenol), Abergele hyd at ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy.

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 24 (Cyfnewidfa’r Faenol).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 25 (Bodelwyddan).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy).

Y darn o gerbytffordd tua’r gorllewin y gefnffordd sy’n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy), Llanelwy hyd at ganolbwynt Cyffordd 24 (Cyfnewidfa’r Faenol), Abergele.

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 27 (Cyfnewidfa Talardy).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 26 (Parc Busnes Llanelwy).

Y darn cyfan o’r ffordd ymuno tua’r gorllewin wrth Gyffordd 25 (Bodelwyddan).